

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym : 07903328655 e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. DDYDD LLUN, MEHEFIN 5ed, 2017, YN Y GANOLFAN GYMUNED, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams a'r Cynghorwyr Eifion Evans; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Fiona Haf Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - y Cynghorydd Irwedd Griffiths.

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB -

Atgoffir yr aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Datgelodd y Cynghorydd Fiona Haf Jones ddiddordeb yn eitem 6.17/16(i) cais cynllunio Rhif 0/43592, gan mai hi oedd yn gwneud y cais. Datgelodd y Cynghorwyr Bryn Jones a Tudur W.Jones ddiddordeb yn yr un eitem gan eu bod yn perthyn i'r un oedd yn gwneud y cais.

5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 8fed, 2017, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos

6. MATERION YN CODI

11.16/14(iv) Gormodedd o raeon yn yr afon. Doedd y mater hwn fyth wedi ei setlo gan nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

12.16/14(i) Gwteri yn yr ardal. Roedd gwteri heb eu glanhau'n dal yn yr ardal, ond roedd gan y Cynghorydd Ifor Lloyd fap o'r holl broblemau'n ymwneud â'r Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau (ERF) a gofynnodd i'r Cynghorwyr adael iddo wybod am unrhyw broblemau eraill fel y gellid eu cofnodi.

1.17/14(iii) Tyllau ffordd yn Nhŷ Newydd a chanol y pentref. Doedd y rhain fyth wedi eu trwsio.

2.17/14(iii) Glanhau cyffredinol ffyrdd a gwteri. Roedd y mater hwn yn dal ar fynd ac roedd gan y Cyngor Sir yn awr gerbydau glanhau gwteri newydd a staff wedi eu hyfforddi i'w defnyddio, ac roeddynt yn cael eu trwsio/glanhau'n rheolaidd.

3.17/14(i) Tyllau ffordd rhwng Gerddi a Bryn-y-Maen. Fel uchod.

4.17/14(ii) Niwed i'r bont yn Dawn. Y mater hwn eto heb ei setlo, a dim trwsio wedi ei wneud.

5.17/14(ii) Gwrychoedd wedi gor-dyfu'n gorchuddio arwyddion ffordd ar Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Mae GF28799 yn cyfeirio. Y mater hwn yn dal heb ei setlo.

5.17/14(iii) Wyneb y ffordd ym mynedfa Clwb Golff Silver Birch mewn cyflwr sâl iawn. Mae GF28799 yn cyfeirio. Y trwsio hwn yn awr wedi ei wneud dros dro.

5.17/14(iv) Cais wedi ei wneud am fannau pasio ar y ffordd rhwng Tai a Phen-y-Bryn, Trofarth.

5.17/14(v) Cais am i'r Sir lenwi'r cynhwysion blodau.

5.17/14(vi) Pan fo unrhyw fath o broblem ar yr A55 fe ddargyfeirir traffig trwy Fetws yn Rhos, a chan fod tro cul iawn yn y pentref wrth yr eglwys fe welir ciwiau annerbyniol yn yr ardal, weithiau hyd at ddwy filltir o hyd. Golyga fod cerdded yn y pentref yn fwy peryglus i rieni gyda'u plant, ac i'r rhai bregus.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

6.17/7(i) Llythyr gan Gomisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymu. NODWYD hyn a hysbyswyd aelodau bod angen ymateb i'r ymgynghoriad cyn Awst 24ain, 2017. Y Clerc i weithredu ac ateb.

6.17/7(ii) Cais gan Un Llais Cymru ynglŷn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd i ddod. Enwebwyd Y Cadeirydd a'r Dirprwy i fod yn bresennol.

6.17/7(iii) Llythyr ynglŷn â hedfan y Lluman Coch. Roedd aelodau'n siomedig na allent hedfan y faner hon, gan eu bod yn gwerthfawrogi gwasanaeth y Llynges Fasnachol yn ystod gwrthdrawiadau rhyngwladol, ond gan nad oedd unman i hedfan y faner bu raid, yn anffodus, wrthod.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Fai 30ain, 2017, sef:-

Cyfrif Cymunedol£7968.23

Cyfrif Busnes£5526.71

CYTUNWYD gan bawb ar yr adroddiad cyfrifol misol.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir isod:-

i.	6.17/10(i) Cyflog y Clerc	£ 287.23
ii.	6.17/10(ii) HMRC...(Bacs)	£ 71.81
iii.	6.17/10(iii) Cyfieithu (Hanner Taliad)	£ 15.00
iv.	6.17/10(iv) Treuliau swyddfa	£ 75.00
v.	6.17/10(v) Stampiau.....	£ 30.06
vi.	6.17/10(vi) Papur ac inc	£ 65.69
vii.	6.17/10(vii) Yswiriant Zurich	£ 354.14

11. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Mae pob mater y cyfeiriwyd atynt yn 'materion yn codi' wedi eu gosod ar restr yr Archwiliad Ward.

Dywedodd y Cyngorydd Lloyd fod y CVSC wedi gwneud yn hysbys fod ceisiadau am arian Gwynt-y-Môr yn awr yn agored eto, ac y dylid gwneud ceisiadau drwy'r CVSC.

Dywedodd y Cyngorydd Lloyd hefyd ei fod wedi derbyn cwestiynau gan drigolion ynglŷn â'r grantiau parc heulol, ac yn gofyn beth oedd ar gael. Fe reolir yr arian grantiau gan y parc heulol gan bwyllgor arall, felly dylid gwneud unrhyw gais iddyn nhw.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

15. UNRHYW FATER ARALL

6.17/15(i) Llythyrau o ddiolch i Gynghorwyr sydd wedi ymddeol. NODWYD y rhain.

6.17/15(ii) Ffurflen newydd Yswiriant Zurich. Ystyriwyd yr anfoneb newydd a CHYTUNWYD y dylid talu.

6.17/15(iii) Mandad Banc i'w arwyddo. Gohiriwyd hyn tan y cyfarfod fis Gorffennaf.

4.17/14(i) Darpariaeth diffibriliwr a'r diweddaraf am y grant o gronfa Parc Heulol. Gohitiwyd hyn.

6.17/15(iv) Y Cadeirydd i arwyddo polisi Cod o Ymddygiad. Gohiriwyd hyn.

16. CYNLLUNIO -

6.17/16(i) 0/43952 Trosi arfaethedig adeilad allanol/storfa i swyddfa safle ar gyfer safle garafannau gyfagos bresennol ym Mryn Ffanigl Ganol, Betws yn Rhos. Mr and Mrs Jones. Gadawodd y Cynghorwyr Haf Jones; Tudur W.Jones a Bryn Jones y cyfarfod, ac ni chymerasant ran yn y trafodaethau. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

6.17/16(ii) 0/43895 Newid defnydd o amaethyddol i breswylfod i aros fel rhan libart o'r prif dŷ yn Nant Fawr, Ffordd Nentydd, Rhyd-y-Foel. Mr and Mrs T.Owen. PENDEERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

17. MATERION ARCHWILIAD.

6.17/17(i) Gwybodaeth ynglŷn â hawliau pleidleiswyr i chwilio defnydd cyllidol y Cyngor. Roedd angen arddangos hysbysiadau o fewn dyddiadau, h.y. 22.5.17 i 5.6.17. NODWYD HYN.

6.17/17(ii) Archwiliad mewnol wedi ei gwblhau. Y Cyngor i gymeradwyo - Y Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo os cymeradwywyd. Darllenwyd y ffurflen Archwiliad a'r cymod banc i'r Cyngor. Atebwyd pob cwestiwn ac arwyddwyd y ffurflen gan y Cadeirydd a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol.

ER GWYBODAETH.

Mae pob adroddiad ariannol a banc cyn 2009 wedi eu rhwygo. NODWYD hyn, a CHYTUNWYD arno.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 8.45y.h.

CADEIRYDD.....

DYDDIAD.....